

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Mawrth 12: Pwyllgor swyddogion a chynrychiolwyr Ebeneser a chynrychiolwyr Pwyllgor Datblygu Deiniolen yn Nhy Elidir am 5.45 o'r gloch.

Nos Fercher, Mawrth 12: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 16: Gwasanaethir yn yr Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch ac yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Mawrth 11: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Fawrth, Mawrth 11: Cymdeithas Undebol - ymweliad â Brynrefail.

Nos Fercher, Mawrth 12: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Mawrth 14: Cynhelir CIC yn Cilfynydd am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 16: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Gwilym Charles Williams, Llandudno. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch a'r oedfa

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 9

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John Roberts

Mawrth 16

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 23

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Arwel Williams

Mawrth 30

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Charles Jones

am 5.00 o'r gloch yng ngofal Andrew Settatree.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 16: Ni fydd oedfa.

Oedfaon Teulu

Deiniolen

Sul nesaf, Mawrth 16
am 10.00 o'r gloch

Llanberis

Dydd Sul, Mawrth 23
am 10.30 o'r gloch

Croeso cynnes i aelodau'r eglwysi
a phlant a
theuluoedd yr Ysgolion Sul

Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mawrth 16

10.00 a.m. - Mr Gwilym Charles Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Andrew Settatree

Mawrth 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 30

10.00 a.m. - Mr Dylan Rhys
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 582 – Dydd Sul, 09 Mawrth, 2014

Gwinwydden

Beth ddaw o'r holl goed a syrthiodd ers dechrau'r flwyddyn? Lle bynnag yr ewch chi, mae yna goed a chwythwyd drosodd gan wyntoedd cryfion y gaeaf, ac amryw ohonynt yn amlwg wedi eu rhwygo o'r gwraidd gan rym y gwynt. Fwy na thebyg y bydd y rhan fwyaf yn cael eu torri'n goed tân, a bydd galw mawr amdano gan fod gan fwy a mwy o bobl stofau llogsi coed erbyn hyn. Ond siawns y bydd modd gwneud defnydd gwell o rywfaint o'r coed hyn gan fod y pren yn rhy dda i'w losgi. Tybed a ddefnyddir peth ohono, er enghraifft, i wneud dodrefn cain?

Sonir am amrywiaeth mawr o goed yn Y Beibl, a hwnnw'n cael ei ddefnyddio i wahanol bwrpas. Defnyddid coed cyprys i wneud Arch Noa, er enghraifft; coed cedrwydd ar gyfer Templ Solomon; coed ffynidwydd a phinwydd ar gyfer cychod ac adeiladau; a choed derw i wneud rhywfa.

Ond dywed Y Beibl nad yw pob pren yn ddefnyddiol. Rhan o neges Eseciel y proffwyd oedd y geiriau hyn a lefarodd Duw am y winwydden, 'A gymerir pren ohoni i wneud rhywbeth defnyddiol? A wneir ohoni hoelen bren i grogi rhywbeth arni?' Fedrwech chi wneud dim â phren y winwydden; ddim hyd yn oed hoelen i hongian rhywbeth arno – ddim hyd yn oed beg dillad! Yr unig beth y gellir ei wneud ag ef, medd Duw, yw ei losgi. A thrwy'r darlun hwn, mae Duw'n rhybuddio cenedl Israel y bydd hi fel y winwydden, yn cael ei 'difa' pan fydd ef yn ei barnu am ei

hanffyddlondeb a'i hanufudd-dod iddo ef (Eseciel 15).

Ond os nad oes modd gwneud dim â'r pren, y mae i'r winwydden hithau ei gwerth wrth gwrs. Os na ellir gwneud dodrefnyn, na hyd yn oed beg dillad ohoni, y mae'n rhoi grawnwin! Y mae'n dwyn ffrwyth. A dyna'n union yw ei phwrpas.

A'r syniad o ddwyn ffrwyth a wnaeth i Iesu Grist ei ddisgrifio ei hun fel 'y wir winwydden' a'i ddisgyblion fel canghennau'r winwydden honno. Trwy eu perthynas ag ef y mae ei ddisgyblion i ddwyn ffrwyth, sef pob math o weithredoedd da. Os nad yw'r canghennau'n dwyn ffrwyth, does dim i'w wneud ond eu taflu a'u llogsi.

Fel disgyblion i Iesu Grist, pwrpas mawr ein bywyd yw dwyn ffrwyth er clod i Dduw; gweithredu mewn cariad ac ufudd-dod iddo ef. Ac os ydym yn dwyn y ffrwyth hwn, gallwn fod yn fodlon ein bod yn cyflawni bwriadau Duw ar ein cyfer.

Mae'r cyfan yn dibynnu ar y berthynas â Iesu. Defnyddiodd Iesu ddarlun y winwydden am fod cenedl Israel wedi meddwl amdani ei hun fel gwinwydden yr Arglwydd. 'O Dduw'r lluoedd,' medd y Salmydd (yn Salm 80) 'gofala am y winwydden hon, y planhigyn a blennaist â'th ddeheulaw' (80:14-15). Ond roedd rhaid i'r pren hwnnw ddwyn ffrwyth, fel y dangosodd Duw wrth rybuddio'r genedl trwy Eseciel.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul unwaith eto. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad o'r newydd.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch ac estynnwn groeso i Mr John Roberts, Llanfairpwll a fydd yn arwain yr oedfa am 5.00 o'r gloch.

Byddaf fi'n arwain yr oedfa am 10.00 o'r gloch a bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch ac estynnwn groeso cynnes i bawb i ymuno â ni yn yr addoliad.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Lun, Mawrth 17. Gobeithio'n fawr y bydd pob eglwys wedi ei chynrychioli. Mae'r blaenoriaid a'r diaconiaid a holl swyddogion yr eglwysi yn aelodau o'r pwyllgor hwn.

Nodwch hefyd os gwelwch yn dda y bydd Pwyllgor yr Ofalaeth yn cyfarfod eto nos Lun, Mawrth 31.

Gobeithio'n fawr y bydd modd i gymaint â phosibl fod yn bresennol gan fod angen trafod pethau o bwys i'r Ofalaeth a'i threfniadau.

Dydd Gweddi

Byd-eang y Chwiorydd

Cynhaliwyd Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Nhy Elidir nos Iau, Mawrth 6, dan nawdd eglwysi Deiniolen.

Cymerwyd rhan gan aelodau eglwysi'r pentref. Gwnaed casgliad o £20.

Diolch yn fawr i Linda Owen a Marina Marselos am drefnu'r gwasanaeth eleni.

Dosbarth Beiblaidd

Cynhelir Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Mawrth 12. Bydd croeso cynnes i chi ymuno â ni. Cawn amser da yn trafod a dysgu o'r Beibl.

CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC am 7.00 o'r gloch nos Wener nesaf, Mawrth 14.

Nid yn y capel y byddwn yn cyfarfod y tro hwn ond yn Cilfynydd, lle cawn noson gemau a pitsa.

Glanhau'r Festri

Tybed a oes yna rywun neu rywrai a fyddai'n gallu helpu i lanhau festri Capel Coch? Erbyn hyn dim ond dau 'dim' o lanhawyr sy'n cymryd eu tro i lanhau'r festri. Byddai'n help mawr os medrwn gael o leiaf un 'tim' arall o ddau neu dri o bobl i rannu'r gwaith trwy roi awr neu ddwy yr wythnos am fis, bob rhyw dri mis. Byddai hynny'n ysgafnhau'r gwaith. Holwch Miss Dilys Mai Roberts am ragor o fanylion.

Casgliad Genhadaeth

Gwneir y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwiorydd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru y mis hwn. Byddwn yn ddiolchgar am bob rhodd at y casgliad hwn fel arfer, a gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer.

Cadeiriau

Fel y soniwyd yr wythnos ddiwethaf mae cadeiriau newydd ar gyfer Capel Coch wedi eu harchebu erbyn hyn.

Yr ydym yn ddiolchgar am y rhoddion a dderbyniwyd at y cadeiriau heb i ni ofyn amdanynt, ac mae rhai ohonoch wedi mynegi awydd i gyfrannu at y gost trwy brynu neu gyfrannu at gost cadair, ac wedi holi am y pris.

Mae'r cadeiriau'n costio £80 yr un, a byddwn yn ddiolchgar am bob rhodd y byddai unrhyw un yn awyddus i'w roi, un ai cost un gadair neu gyfraniad llai tuag at y gost. Rydym yn nodi'r £80 yn unig am fod rhai wedi gofyn faint mae'r cadeiriau'n gostio.

Yr ydym wedi archebu 60 o gadeiriau, a fydd yn llenwi canol y festri, gyda'r bwriad o brynu rhagor o gadeiriau yn nes ymlaen.

Meinciau Capel Coch

Bwriadwn werthu rhai o'r meinciau pren er mwyn gwneud lle i'r cadeiriau newydd.

Bydd y cynnig cyntaf i'w prynu yn cael ei roi i aelodau'r eglwys, ac felly os oes gennych ddiddordeb mewn prynu mainc rhowch wybod i Drysorydd yr eglwys, Mr Colin Jones os gwelwch yn dda. Nid ydym wedi setlo ar bris terfynol, ond bwriadwn godi oddeutu £30 y fainc amdanynt. Cewch wybod y pris terfynol yr wythnos nesaf, a bydd angen i bawb gyflwyno cais ar bapur. Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad a sawl mainc yr hoffech eu prynu. Bydd rhaid cyfyngu pawb i un fainc os bydd galw mawr amdanynt.

Cymorth Cristnogol

Mae Cymorth Cristnogol eisoes yn dechrau trefnu ar gyfer yr wythnos o gasglu arian o ddrws i ddrws yn ystod y mis hwnnw.

Mai 11-17 fydd Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, a bwriadwn wneud y casgliad arferol unwaith eto.

Os medrwn roi ychydig oriau yn ystod yr wythnos honno i'n helpu gyda'r casgliad byddwn yn ddiolchgar iawn.

Fel y gwyddoch, mwya'n byd o bobl sydd gennym i helpu efo'r casglu, mwya'n byd o arian a gesglir.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r Parchg Idris Thomas, Deiniolen, a'r holl deulu yn eu profedigaeth o golli mam a nain a hen nain, Mrs Alice Thomas (1 Bro Elidir, Dinorwig) yng Nghartref Plas Pengwaith, Llanberis ddydd Llun diwethaf. Boed i Dduw eich cysuro a'ch cynnal yn eich colled a'ch hiraeth.